Swigod

Cysyniadau:	**Caru'n gilydd, ymroddiad, gofal, goddefgarwch.**
Amcan:	**Dangos fel mae rhai pethau'n newid ond fod cariad yn para.**
Cyfarpar:	**Hylif i chwythu swigod (o siop neu archfarchnad), llun calon.**

Cyflwyniad:

● Eistedd o flaen y plant a chwythu swigod. Annog y plant i eistedd yn dawel i wylio'r swigod yn diflannu. Chwythu'r swigod i ffwrdd oddi wrth y plant. Cyfeirio at brydferthwch y swigod – holl liwiau'r enfys, yn enwedig pan mae'r goleuni'n taro arnyn nhw. Yr unig broblem ydi mai dros dro y maen nhw'n para.

● Annog rhai o'r plant i ddod i chwythu'r swigod. Gweld pa mor fawr fydd y swigod ac am faint maen nhw'n para. Cadarnhau unwaith yn rhagor pa mor lliwgar ydi'r swigod ond nad ydyn nhw'n para.

● Cyfeirio at bethau eraill nad ydyn nhw'n para'n hir. Rhoi cyfle i'r plant ateb. Beth am fferins? Hufen iâ ar ddiwrnod poeth? Cath fach neu gi bach yn tyfu'n rhy sydyn o lawer. Beth am wyliau ysgol, amser chwarae ac amser cinio?

● Cyfeirio at bethau sy'n aros yr un fath – adeiladau – yr ysgol, y neuadd, capel, eglwys.

Trafodaeth bellach:

● Mae'n ymddangos nad oes fawr o ddim yn para am byth. Beth am bobl? Mi ydyn ni'n tyfu ac yn newid. Gellir dangos ffotograff o un o'r

athrawon yn blentyn a sut maen nhw'n edrych heddiw. Mi ydych chi'n blant heddiw ond cyn pen dim mi fyddwch chi wedi tyfu'n oedolion. Ond dydi oedolion ddim yn byw am byth. Maen nhw'n marw.

● Dyma gyfle os dymunir i drafod marwolaeth efo'r plant a gwneud hynny'n ofalus a sensitif. Gellir trafod marwolaeth anifail anwes i ddechrau. Gellir trafod marwolaeth ym myd natur – fel mae'r planhigion yn marw.

● Yna symud ymlaen i drafod pobl mewn oed yn marw. Rhoi cyfle i'r plant ymateb. Ond nid pobl mewn oed yn unig ond pobl ifanc yn cael eu lladd mewn damwain ar y ffordd neu wedi cael afiechyd nad oes modd ei wella.

● Cyfeirio'n ôl at y swigod. Er mor brydferth oedden nhw wnaethon nhw ddim para am byth.

● Ond fedrwch chi feddwl am rywbeth sydd yn para am byth? Dal y 'galon' i fyny. Mae cariad tuag at rywun arall yn para am byth. Y plant yn caru eu rhieni a'r rhieni yn caru'r plant. Rhieni yn caru ei gilydd, nain a taid yn caru'r rhieni a charu'r plant.

● Cyfeirio at gariad Duw. Mae Duw yn ein caru.

Stori:
Dyma i chi stori am fab adawodd ei gartref ac mae'n siŵr ei fod yn meddwl bod ei dad wedi anghofio amdano ac nad oedd yn ei garu mwyach. Os gwn i beth ddigwyddodd?

Unwaith roedd tad a chanddo ddau o feibion. Dywedodd y mab ieuengaf, 'Gad i mi gael yr hyn y byddaf yn ei etifeddu pan fyddi di'n marw. Rydw i am deithio a mwynhau fy hun yn awr.' Felly rhannodd y tad ei eiddo rhwng ei ddau fab.

Cymerodd y mab ieuengaf yr arian ac aeth i ffwrdd i wlad bell. Gwariodd ei arian i gyd yn cael amser da ac yn gwneud llawer o ffrindiau, ond cyn pen dim roedd wedi gwario'r cwbl.

Daeth newyn mawr dros y wlad. Doedd dim byd i'w fwyta. Bu'n rhaid i'r mab ieuengaf gymryd yr unig waith oedd ar gael, sef bwydo moch. Ar brydiau, roedd arno gymaint o eisiau bwyd nes bod yn rhaid iddo fwyta bwyd y moch. Sylweddolodd pa mor wirion roedd o wedi bod.

'Mae gweision fy nhad yn cael mwy o fwyd nag ydw i'n gael yma. Rydw i am fynd yn ôl adref a dweud wrth fy nhad mod i wedi gwneud peth gwirion. Mi ofynna i iddo a gaf i weithio fel gwas ar y fferm.'

Ond tra oedd y mab i ffwrdd, roedd y tad yn dal i chwilio amdano ac yn gobeithio y byddai'n dod yn ôl adref. Un diwrnod, gwelodd y mab o bell, rhedodd i'w gyfarfod gan roi ei freichiau amdano a'i gusanu.

'Mae'n ddrwg gen i mod i wedi dy siomi a chodi cywilydd arnat ti,' meddai'r mab. 'Mae'n wir ddrwg gen i. Dydw i ddim yn haeddu cael fy nerbyn yn ôl yn fab i ti. Gaf i gyfle i weithio fel un o'r gweision ar y fferm?'

Ond ysgydwodd y tad ei ben.

'Tyrd â'r dillad gorau i'm mab,' galwodd y tad ar un o'r gweision. 'Rho sandalau newydd iddo a modrwy ar ei fys. Dos i baratoi'r wledd orau ar ei gyfer. Roeddwn i'n meddwl bod fy mab wedi marw. Roedd ar goll, ond nawr mae o'n fyw. Dowch i ni gael parti mawr i ddathlu ei fod wedi dod adref yn ddiogel!' Beibl Lliw Stori Duw tt. 249-250

Trafodaeth bellach:

- Pam oedd y mab ieuengaf eisiau gadael ei gartref?

- Tybed oedd y tad wedi digio wrth y mab? Sut ydych chi'n gwybod hynny?

Dyfyniad o'r Beibl:

Ffrindiau annwyl, gadewch i ni garu'n gilydd, am fod cariad yn dod oddi wrth Dduw.

1 Ioan 4:7 beibl.net

Munud i feddwl:
Rwyt ti'n fy ngwneud i'n hapus mewn ffordd na fedr neb arall.

Emyn: Cariad Iesu Grist: Canu Clod 69

Myfyrdod/Gweddi:
Diolch i ti, O Dduw, nad ydi dy gariad di byth yn gorffen na byth yn ein gadael. Helpa ni i garu ein gilydd ac i garu'r rhai sy'n gwneud drwg i ni. Amen.